

Bioamrywiaeth

Papur briffio

Tachwedd 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6472**
E-bost: **Sara.Moran2@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](http://cylchlythyr)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bioamrywiaeth

Papur briffio

Tachwedd 2023

Awduron:

Matthias Noebels, Sara Moran a Katy Orford. Diweddarwyd gan Amandine Debus.

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Matthias Noebels gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol ac i Amadine Debus gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a'i gwnaeth yn bosibl cwblhau'r Papur Briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil.



Cynnwys

Crynodeb 1

Cyflwyniad 3

Beth yw bioamrywiaeth?..... 3

Pam y mae bioamrywiaeth yn bwysig? 3

Sut a pham y mae bioamrywiaeth yn dirywio? 4

Rhyngwladol..... 7

 Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol 7

 Cytuniadau rhyngwladol eraill..... 9

Yr UE..... 10

 Y Gyfarwyddeb Adar 10

 Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd 11

 Rhwymedigaethau'r DU a'r UE 11

y DU 12

 Polisi bioamrywiaeth y DU 12

 Deddfwriaeth bioamrywiaeth y DU 13

Cymru.....	15
Polisi bioamrywiaeth Cymru.....	15
Deddfwriaeth bioamrywiaeth Cymru.....	17
Monitro bioamrywiaeth Cymru.....	19
Sefydliadau Cymreig perthnasol	19
Lloegr.....	20
Yr Alban.....	21

Ardaloedd gwarchoddedig22

Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru a’r camau nesaf.....25

Targedau bioamrywiaeth.....	25
Coedwigaeth a choetiroedd.....	26
Polisi rheoli tir yn y dyfodol	27
Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol	28
Ariannu adferiad natur.....	29
Monitro bioamrywiaeth	29

Crynodeb

Beth yw'r broblem?

Yn 2021, **cyhoeddodd y Senedd 'argyfwng natur'**. Roedd hyn yn gydnabyddiaeth o'r dirywiadau mewn bioamrywiaeth a achoswyd gan bobl. Mae **Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023** yn tynnu sylw at y ffaith bod 18 y cant o 3,897 o rywogaethau a aseswyd yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

Daw pwysau ar fioamrywiaeth o lawer o ffynonellau, gan gynnwys trefoli, llygredd, newid hydrolegol, rhai technegau rheoli amaethyddol a rheoli coetir a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Mae gwerth cynhenid i fioamrywiaeth ac mae'n cynnig buddion i bobl drwy **'wasanaethau ecosystemau'**, megis atal llifogydd a chynhyrchu bwyd. Credir bod colledion bioamrywiaeth yn achosi risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl.

Sut y mae bioamrywiaeth yn cael ei gwarchod?

Mae gwarchod natur yn faes cymhwysedd datganoledig yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o bolisiau a deddfwriaeth ar fioamrywiaeth yn y DU, gan gynnwys Cymru, yn deillio o'r UE a rhwymedigaethau rhyngwladol, megis y **Cyfarwyddebau Natur** a'r **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol**.

Y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** yw strategaeth bioamrywiaeth trosfwaol Llywodraeth Cymru. Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn cynnwys dyletswyddau amrywiol i warchod bioamrywiaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw corff statudol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli adnoddau naturiol Cymru.

Beth y mae rhanddeiliaid yn galw amdano?

Mae rhanddeiliaid amgylcheddol yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno targedau bioamrywiaeth domestig statudol.

Gall adfer o bandemig Covid-19 gynnig cyfle i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth. Wedi'i frandio fel 'yr adferiad gwyrdd', **mae amgylcheddwyr wedi pwysleisio'r** angen am swyddi gwyrdd i ysgogi'r economi a gwarchod bioamrywiaeth.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer **Coedwig Genedlaethol** wedi magu momentwm ac mae rhanddeiliaid yn pwysleisio bod yn rhaid plannu coed yn y lleoedd cywir i sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth.

Mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol Llywodraeth Cymru wedi'i nodi fel cyfle i wella bioamrywiaeth drwy daliadau ar gyfer nwyddau cyhoeddus.

Ar ôl ymadael â'r UE, mae **pryder ymhlith amgylcheddwyr**, yn sgil colli strwythurau'r UE i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, na fydd y cyfreithiau presennol yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae rhanddeiliaid yn galw am system ddomestig o lywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru.

Mae rhanddeiliaid hefyd yn galw am ariannu adferiad byd natur yn briodol trwy gyllid cyhoeddus a phreifat. Mae adroddiad **Llwybrau i 2030** Cyswllt Amgylchedd Cymru yn tynnu sylw at feysydd ar gyfer buddsoddi.

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno beth yw bioamrywiaeth, pam ei bod yn bwysig, a pham ei bod yn dirywio.

Beth yw bioamrywiaeth?

Rhoddir diffiniad o fioamrywiaeth, neu amrywiaeth fiolegol, yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**, sef "amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem". Defnyddir diffiniadau tebyg gan y **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol** (CAF) a **Llywodraeth y DU**.

Mae organeddau byw yn endidau unigol sy'n dangos rhai o nodweddion bywyd, megis cynnwys un neu fwy o gelloedd a bod â'r gallu i fetabileiddio, tyfu, addasu neu atgenhedlu. Mae anifeiliaid, planhigion, ffyngau a micro-organeddau, megis bacteria, oll yn organeddau byw.

Mae'r diffiniad yn pwysleisio ymhellach yr ystod o ffyrdd y mae bioamrywiaeth yn digwydd. Mae bioamrywiaeth yn ystyried amrywiolion genetig ac amrywiaeth o rywogaethau, ond hefyd mathau gwahanol o gynefinoedd.

Gan fod lleoliad daearyddol Cymru yn ffinio â thri pharth hinsawdd cefnforol ac oherwydd ei daeareg amrywiol a'i hinsawdd dymherus, mae'n gallu cynnal amrywiaeth o rywogaethau. Nid yw rhai, fel lili Maesyfed neu lili'r Wyddfa, **i'w canfod yn unman arall** yn y byd. Mae'n anodd pennu nifer y rhywogaethau yng Nghymru, ond mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** yn amcangyfrif bod tua 50,000 o rywogaethau.


Pam y mae bioamrywiaeth yn bwysig?

Bioamrywiaeth yw conglfaen ecosystemau ac mae'n cynnal amgylchedd naturiol iach. Mae bioamrywiaeth yn helpu'r amgylchedd i ddarparu ystod o fuddion i bobl, a ddosberthir yn aml fel '**gwasanaethau ecosystemau**'. Mae'r rhain yn amrywio o beillio ac atal llifogydd i fuddion hamdden ac iechyd a ddosbarthir yn gyffredinol fel a ganlyn:

- **Cynnal** (e.e. peillio, ffotosynthesis, ailgylchu maethynnau);
- **Darparu** (e.e. bwyd, deunyddiau crai, ynni);
- **Rheoleiddio** (e.e. dal a storio carbon, pydru, puro'r dŵr a'r aer, amddiffyn rhag llifogydd, rheoli clefydau);

- **Diwylliannol** (e.e. hamdden, gwyddoniaeth, therapiwtig).

Ffigur 1: Categoriâu ac enghreifftiau o wasanaethau ecosystemau. Ffigur yn seiliedig ar asesiad ecosystemau cenedlaethol y DU.



Mae **Adolygiad 2021 Dasgupta** yn asesu buddion economaidd bioamrywiaeth yn fyd-eang a'r costau economaidd a risgiau o golli bioamrywiaeth. Mae'r adolygiad yn dangos bod twf a datblygiad economaidd cynaliadwy yn gofyn am wella natur i gynyddu cyfoeth a llesiant cyfunol.

Sut a pham y mae bioamrywiaeth yn dirywio?

Mae lefelau bioamrywiaeth byd-eang bob amser wedi bod yn newid. **Mae gwyddonwyr yn gwahaniaethu chwe diflaniad torfol** ers i fywyd ar y Ddaear ddechrau, wedi'u cymysgu â chyfnodau o fioamrywiaeth ffyniannus. Credir bod pob diflaniad torfol wedi arwain at ddiflaniad o leiaf 75 y cant o'r holl rywogaethau. Mae ffosiliau a ganfuwyd ar arfordiroedd Cymru yn dystiolaeth o rywogaethau a ddiflannodd gannoedd o filiynau o flynyddoedd yn ôl, i'w disodli gan eraill drwy esblygiad.

Dywed gwyddonwyr fod y chweched digwyddiad diflannu torfol yn dechrau, a'r cyntaf **sy'n gysylltiedig â gweithgarwch pobl**. Mae **ymchwil yn awgrymu** bod

cyfradd gyfartalog colli rhywogaethau asgwrn cefn dros y ganrif ddiwethaf hyd at 100 gwaith yn uwch na'r cyfraddau diflannu cyn pobl.


Dadlennodd **asesiad byd-eang IPBES (2019)** ddirywiadau cyffredin, sy'n cyflymu, mewn bioamrywiaeth a systemau cynnal bywyd. Daeth i'r casgliad bod bioamrywiaeth dan fygythiad oherwydd trosi cynefinoedd, cynaeafu adnoddau'n ormodol, newid hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol ac effeithiau eraill. Cafodd yr asesiad gymeradwyaeth unfrydol gan y 132 o aelod-wledydd. Pwysleisiodd, oni bai bod y dirywiadau hyn yn cael eu gwrthdroi, y bydd atchweliad mewn diogelwch pobl, iechyd meddwl a chorfforol, a diogelwch bwyd a bywoliaeth yn parhau.

Yn y DU ac yng Nghymru, mae adroddiad **Sefyllfa Byd Natur 2023** cydweithredol sector yr amgylchedd yn dod i'r casgliad y daw pwysau ar fioamrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys rheoli amaethyddol, trefoli, llygredd, newid hydrolegol, rheoli coetir a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol. Dywed fod newid hinsawdd yn sbarduno newidiadau cyffredin yn helaethrwydd, dosbarthiad ac ecoleg bywyd gwyllt Cymru.

Mae **Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 Cyfoeth Naturiol Cymru** a **Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru** yn cydnabod bod Cymru yn dal i fod ymhell o gyrraedd nodau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol, megis cyflawni dull 'rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol' fel y'i diffinnir yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**. Yn lle hynny, **canfu Adroddiad interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020** y canlynol:

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn gyrru rhywogaethau i symud lleoliad. Gallai rhywogaethau arctig-alpinaidd o fewn cynefinoedd mynyddig ddiflannu o Gymru wrth i'w cynefinoedd gael eu colli. Pan na all planhigion a bywyd gwyllt arfordirol symud i'r tir, gall y cynnydd yn lefel y môr a mwy o erydu tir arwain at golled eang. Mae nifer y rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, a'u cwmpas, yn debygol o gynyddu wrth i'r hinsawdd newid. Mae pwysau amgylcheddol yn achosi dirywiadau byd-eang mewn bioamrywiaeth ar gyfraddau na welwyd erioed o'r blaen mewn hanes dyn. Mae rhywogaethau'n diflannu ar gyfradd gyflymach.

Ffigur 2: Risg o rywogaethau'n diflannu yng Nghymru, gyda llinell sylfaen 1970 (Ffynhonnell: Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023)



Mae Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 yn cyflwyno asesiadau o risg diflannu yng Nghymru ar gyfer nifer o grwpiau tacsonomig (3,897 o rywogaethau). O'r rhain, mae 663 (18 y cant) mewn perygl o ddiflannu o Gymru, ac mae 95 arall (2 y cant) wedi diflannu eisoes (o linell sylfaen 1970).

Polisi a deddfwriaeth bioamrywiaeth

Mae'r rhan fwyaf o bolisiau a deddfwriaeth ar fioamrywiaeth yng Nghymru a'r DU yn deillio o gyfraith yr UE a chyfraith ryngwladol, megis Cyfarwyddebau Natur yr UE a'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cytuniadau o bwys rhyngwladol, polisiau a deddfwriaeth bioamrywiaeth yr UE, y DU a Chymru.

Rhyngwladol

Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol

Mae'r **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (CAF)** yn gytuniad rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y Gynhadledd ar yr Amgylchedd a Datblygu (a elwir hefyd yn 'Uwchgynhadledd y Ddaear') yn Rio de Janeiro ym 1992 a ddaeth i rym ym 1993. Mae **196 o bartion** i'r Confensiwn, a **gadarnhawyd gan y DU ym 1994**. Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn ei gwneud yn ofynnol i bartion lunio a gorfodi strategaethau a chynlluniau gweithredu cenedlaethol ar gyfer cadw, gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Yn benodol, mae'r CAF yn pennu tri nod:

- Cadw bioamrywiaeth;
- Y defnydd cynaliadwy o elfennau o fioamrywiaeth;

Rhannu'r buddion sy'n deillio o ddefnyddio adnoddau genetig mewn modd teg a chyfiawn.

Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011 - 2020

Mabwysiadwyd **Cynllun Strategol ar gyfer Bioamrywiaeth 2011 - 2020** yn 10fed Gynhadledd y Partion (COP10) i'r CAF yn Nagoya, Japan, yn 2010. Daeth i'r casgliad canlynol:

1. ni chyrrhaeddwyd targedau 2010 ar gyfer bioamrywiaeth;
2. nid ymdriniwyd yn briodol â sbardunau colli bioamrywiaeth (newid cynefinoedd, gorfanteisio, llygredd, rhywogaethau estron goresgynnol a newid hinsawdd) ac nid oedd materion bioamrywiaeth wedi'u hintegreiddio'n ddigonol â pholisïau cenedlaethol (yn rhannol oherwydd galluoedd cyfyngedig ac adnoddau technegol ac ariannol cyfyngedig mewn gwledydd sy'n datblygu).

Datblygiad arall o COP10 oedd cyflwyno **targedau Aichi**.

Roedd y targedau'n cynnwys y rhai hynny i hanner o leiaf a, phan fo'n ymarferol, ddod â chyfradd colli cynefinoedd naturiol yn agos at sero, gwarchod 17 y cant o fannau dŵr mewndirol a 10 y cant o fannau morol ac arfordirol ac adfer o leiaf 15 y cant o fannau dirywiedig drwy waith cadwraeth ac adfer.

Cytunodd y partïon i ymgorffori targedau Aichi mewn strategaethau bioamrywiaeth a chynlluniau gweithredu cenedlaethol o fewn dwy flynedd. I Gymru dyma'r **Cynllun Gweithredu Adfer Natur**.

Mae'r cynllun strategol ar gyfer bioamrywiaeth o COP10 hefyd yn nodi gweledigaeth 2050 ar gyfer bioamrywiaeth, sy'n nodi'r canlynol:

By 2050, biodiversity is valued, conserved, restored and wisely used, maintaining ecosystem services, sustaining a healthy planet and delivering benefits essential for all people.

Yn ôl adroddiad **Global Biodiversity Outlook 5** a gyhoeddwyd yn 2020, nid oes yr un o dargedau Aichi wedi'u cyflawni. Cyflawnwyd chwe tharged yn rhannol, ac nid yw deg targed yn dangos unrhyw gynnydd na symudiad i ffwrdd o'r targed ar gyfer o leiaf un o'u helfennau penodol.

Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal

Mabwysiadwyd **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal** yn COP15, ym mis Rhagfyr 2022. Disodlodd Gynllun Strategol y CAF ar gyfer Bioamrywiaeth 2011-2020 a thargedau Aichi ac mae'n cynnwys pedwar nod a 23 targed i'w cyflawni erbyn 2030.

Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn mynd i'r afael â materion amrywiol i atal a gwrthdroi colledion bioamrywiaeth, gan gynnwys targedau i:

- Ddiogelu ecosystemau (targedau 2 a 3) a rhywogaethau (targedau 4, 5 a 6);
- Mynd i'r afael â llygredd (targed 7); a
- Pharchu hawliau pobl frodorol a chymunedau lleol (Nod C ac wedi'i gynnwys mewn 7 targed).

Mae targed 3, y cyfeirir ato hefyd fel '30x30', yn agwedd allweddol ar gytundeb COP15, sy'n ceisio diogelu:

...at least 30% of terrestrial, inland, water, and of coastal areas, especially areas of particular importance for biodiversity and ecosystem functions and services...

Ffigur 3: Ysgrifennydd Cyffredinol António Guterres gyda chyfranogwyr yn ystod COP15 ym Montreal, Canada (Ffynhonnell: [Llun y Cenedloedd Unedig](#))



Cytuniadau rhyngwladol eraill

Mae bioamrywiaeth yn destun nifer o gytuniadau rhyngwladol eraill. Dyma ychydig o enghreifftiau.

Nod **[Confensiwn Bern 1979 ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop](#)** yw gwarchod fflora, ffawna a chynefinoedd, hyrwyddo cydweithrediad, a galw sylw i rywogaethau sydd mewn perygl ac sydd dan fygythiad. Mae'n ofynnol i bartion hyrwyddo polisiau a mesurau gwarchod cenedlaethol rhag llygredd. Yn y DU, gweithredir Confensiwn Bern gan **[Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981](#)** (a nodir isod).

Nod **[Confensiwn 1979 ar Warchod Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt](#)** (neu 'Cynhadledd Bonn') yw gwarchod anifeiliaid mudol, gan gynnwys rhywogaethau'r tir, dyfrol ac adarol, a hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o'u cynefinoedd. Yn y DU, gweithredir Confensiwn Bonn gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a **[Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000](#)**.

Nod **[Confensiwn 1971 ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn enwedig](#)**

fel Cynefin Adar Dŵr (neu 'Confensiwn Ramsar') yw gwarchod gwlyptiroedd, gan hyrwyddo eu defnydd cynaliadwy, yn ogystal â chydweithrediad rhyngwladol. Nid oes deddfwriaeth bwrpasol ar gyfer safleoedd Ramsar yn y DU, ond maent yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a chânt eu diogelu gan deddfwriaeth arall (isod).

Mabwysiadwyd **y Cytundeb o dan Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Fiolegol Forol Ardaloedd y tu hwnt i Awdurdodaeth Genedlaethol** (Mabwysiadwyd y "cytundeb BBNJ" neu "Gytundeb y Moroedd Uchel") ym mis Mehefin 2023. Mae'n cynnwys mesurau rhwymol a gwirfoddol i wella gweithrediad y Confensiwn ar Gyfraith y Môr i fynd i'r afael â diraddio ecosystemau'r cefnforoedd mewn ardaloedd y tu hwnt i awdurdodaeth genedlaethol (h.y. y moroedd uchel). Arwyddodd Llywodraeth y DU'r cytundeb ar 20 Medi 2023.

Yr UE

Mae'r UE wedi pasio dwy Gyfarwyddeb bwysig sy'n ymdrin â bioamrywiaeth, **y Gyfarwyddeb Adar** (ar warchod adar gwyllt) a'r **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** (ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt). Y 'Cyfarwyddebau Natur' ydynt gyda'i gilydd.

Gweithredir y Cyfarwyddebau Natur yn y DU drwy offerynnau amrywiol fel y nodir isod (yr adran 'deddfwriaeth bioamrywiaeth y DU'). Er bod y Cyfarwyddebau Natur **yn gymwys yn ddomestig drwy gyfraith yr UE a ddargedwir** yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, gall y DU ddisodli neu ddiddymu'r deddfwriaeth hon, gan gynnwys drwy **Gyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023**.

Y Gyfarwyddeb Adar

Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb Adar ym 1979 yn gydnabyddiaeth mai colli a dirywio cynefinoedd yw'r bygythiad mwyaf difrifol i adar gwyllt. Mae'r Gyfarwyddeb Adar yn gwarchod, gyda rhai eithriadau, yr holl adar gwyllt naturiol, ar draws Aelod-wladwriaethau, yn ogystal â'u hwyau, eu nythod a'u cynefinoedd. Mae'n gwahardd gweithredoedd megis lladd neu ddinistrio bwriadol (Erthygl 1). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE ddynodi **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** ar gyfer gwarchod adar mudol (Erthygl 2) a 194 o rywogaethau adar eraill a restrir yn Atodiad I o'r Gyfarwyddeb (Erthygl 4).

Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd

Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ym 1992 i sicrhau adfer neu gynnal cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o ddi-ddordeb ar statws cadwraeth ffafriol fel rhan o gyfraniad yr UE i ddatblygu cynaliadwy.

Mae Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE ddynodi **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** ar gyfer gwarchod dros 1,000 o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion, yn ogystal â 200 o gynefinoedd. Yn bwysig, nid yw'r Gyfarwyddeb wedi'i chyfyngu i rywogaethau sydd mewn perygl o ddiflannu. Ei nod yw gwarchod rhywogaethau sydd mewn perygl, dan fygythiad neu'n brin, a chynefinoedd sydd mewn perygl o ddiflannu, sydd ag ystod naturiol fach neu'n enghreifftiau eithriadol o ranbarthau daearyddol nodweddiadol. Ar gyfer rhai rhywogaethau, mae'n rhaid bod mesurau gwarchod ar waith ar gyfer eu hystod naturiol gyfan.

Sefydlodd Erthygl 3 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd **rwydwaith Natura 2000**, sy'n cynnwys 14 o ranbarthau bioddaearyddol sy'n cynnwys pob ACA ac AGA. Mae hyn yn estyn i oddeutu 20 y cant o diriogaeth tir yr UE, yn ogystal â rhai ardaloedd morol. Ers gadael yr UE, mae'r DU wedi disodli Natura 2000 gyda'r **Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol** (gweler isod).

Rhwymedigaethau'r DU a'r UE

Cytunodd y DU a'r UE ar delerau eu perthynas newydd yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu**.

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r hinsawdd. Mae'r ddau fater yn rhan o'r darpariaethau **'tegwch yn y farchnad' (LPF)**, sy'n ceisio sicrhau cystadleuaeth deg rhwng y DU a'r UE mewn modd sy'n ffafriol i ddatblygu cynaliadwy.

Rhestrir 'gwarchod natur a bioamrywiaeth' yn benodol yn y darpariaethau hyn. Maent yn cynnwys dyletswydd dim atchwelyd i beidio â gwanhau na gostwng y lefelau gwarchod a oedd ar waith ar 31 Rhagfyr 2020 mewn ffordd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a'r UE. Maent hefyd yn caniatáu i'r DU a'r UE ddefnyddio mesurau ailgydbwysu os yw eu lefelau gwarchod yn y dyfodol yn ymrannu.

Yn ogystal â darpariaethau'r LPF, gellid ystyried bod materion sy'n berthnasol i fioamrywiaeth yn dod o dan **ddarpariaethau pwysig eraill ar gydweithrediad**.

amgylcheddol. Er enghraifft, mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn nodi'r sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn Erthyglau 763-770, sy'n berthnasol iddo a chytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae dau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd a hinsawdd:

- y frwydr yn erbyn newid hinsawdd; a
- chydweithredu byd-eang ar faterion o ddiddordeb economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a rennir.

Ystyrir bod y 'frwydr yn erbyn newid hinsawdd' hefyd yn 'elfen hanfodol o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (Erthygl 764). Mae gan elfennau hanfodol statws uwch yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu oherwydd gall achos o dorri arwain at derfynu'r cytundeb.

Yn olaf, mae darpariaethau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys ymrwymadau i ystyried datblygu cynaliadwy. Gosodir dyletswyddau ar y DU a'r UE mewn nifer o adrannau â ffocws ar fasnach a meysydd amgylcheddol penodol, megis newid hinsawdd, amrywiaeth fiolegol, coedwigoedd ac adnoddau biolegol morol a dyframaethu.

y DU

Polisi bioamrywiaeth y DU

Cyn datganoli, gwnaed gwaith i fodloni rhwymedigaethau bioamrywiaeth rhyngwladol yn y DU. **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth** y DU, a gyhoeddwyd ym 1994, oedd yr ymateb cyntaf i'r CAF. Disgrifiodd adnoddau biolegol y DU a'u pwysigrwydd rhyngwladol, a chyflwynodd y strategaethau a'r fframweithiau ar gyfer gosod a chyflawni targedau bioamrywiaeth.

Er bod gwarchod natur bellach yn fater sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae Llywodraeth y DU yn cynrychioli Cymru yn rhyngwladol a'r DU sy'n rhan o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae llywodraethau'r DU yn parhau i gydweithio yng Ngrŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad â chyrrff traws-lywodraethol eraill er mwyn bodloni ymrwymadau bioamrywiaeth cenedlaethol a rhyngwladol.

Ar ôl ymadael â'r UE, mae gwledydd y DU hefyd yn ceisio cydlynu camau gweithredu drwy **Fframweithiau Cyffredin** a chyfarfodydd rhynglywodraethol rheolaidd fel rhan o'r **cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol**.

Cafodd y **Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur** ei sefydlu o dan **Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990** a'i ailgyfansoddi o dan **Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol**.

a Chymunedau Gwledig 2006. Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yw'r corff cyhoeddus sy'n cynghori Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar warchod natur ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cadwraeth statudol y gwledydd datganoledig, gan gynnwys CNC ar gyfer Cymru.

Yn 2021, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, ynghyd â Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, NatureScot ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon, Natur Bositif 2030, sy'n cynnwys dau adroddiad: **Adroddiad Cryno** ac **Adroddiad Tystiolaeth**. Mae'r adroddiadau hyn yn disgrifio sut y gall y DU gyflawni ei hymrwymiaadau i'r **Addewid Arweinwyr dros Natur**, a lansiwyd yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2020, a'r targed 30x30, **y cytunwyd arno gan aelodau'r G7 yn 2021 cyn COP26**. Yn y cyfnod cyn COP15 yn 2022, cyhoeddodd Cyrff Cadwraeth Natur Statudol y DU ddatganiad ar y cyd, sef **Adferiad Natur ar gyfer Ein Goroesiad, ein Ffyniant a'n Lles**, a oedd yn adeiladu ar Natur Bositif 2030 ac yn atgyfnerthu'r angen am weithredu. Bydd angen diweddarau Fframwaith Bioamrywiaeth y DU i integreiddio Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang COP15.

Deddfwriaeth bioamrywiaeth y DU

Isod y mae'r prif gyfreithiau sy'n ymdrin â bioamrywiaeth yn y DU.

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yw'r ddeddfwriaeth allweddol ar gyfer gwarchod anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd yn y DU. Mae'n gweithredu Cyfarwyddeb Adar yr UE, gan gynnwys y ddeddfwriaeth ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA).

Fel y'i diwygiwyd, mae Deddf 1981 yn gwahardd (gydag eithriadau) y canlynol:

- Lladd, anafu neu fynd ag anifeiliaid gwyllt rhestredig yn fwriadol;
- Casglu, dadwreiddio neu ddinistrio planhigion gwyllt rhestredig yn fwriadol;
- Cyflwyno rhywogaethau gwyllt anfrodorol, sef anifeiliaid a phlanhigion, i'r gwyllt;
- Meddu ar rywogaethau goresgynnol.

Mae Deddf 1981 yn deddfu ar gyfer:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA);
- Gwarchodfeydd natur cenedlaethol;

- Gwarchodfeydd natur morol.

Yn gyffredinol, CNC sy'n gyfrifol am ddynodi'r ardaloedd gwarchoddedig hyn yng Nghymru.

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yw'r prif ddarn o ddeddfwriaeth ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ar Gynefinoedd a rhannau o Gyfarwyddeb Adar yr UE yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cynefinoedd ar y tir a'r glannau.

Ategir gweithrediad y Cyfarwyddebau Natur ar gyfer yr ardaloedd morol alltraeth gan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017** a **Rheoliadau Gweithgareddau Petrolewm Alltraeth (Cadwraeth Cynefinoedd) 2001**.

Mae'r Cyfarwyddebau Natur yn parhau i fod ar waith fel cyfraith yr UE a ddargedwir yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Yn fwyaf diweddar, mae Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2001 wedi'u diwygio gan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** er mwyn eu cadw'n weithredadwy. Yn bwysig, mae Rheoliadau 2019 yn disodli rhwydwaith Natura 2000 drwy rwydwaith safleoedd cenedlaethol newydd. Mae **Memorandwm Esboniadol** Rheoliadau 2019 yn nodi'r canlynol:

The intention is to ensure habitat and species protection and standards as set out under the Nature Directives are implemented in the same way or an equivalent way when the UK exits the EU. There is no change to policy.

Deddfwriaeth bellach y DU

Mae deddfwriaeth bellach y DU ar fioamrywiaeth yn cynnwys:

- **Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949;**
- **Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009;**
- **Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019;**

Cymru

Polisi bioamrywiaeth Cymru

Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Y **Cynllun Gweithredu Adfer Natur** yw strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n nodi sut yr ymdrinnir â Chynllun Strategol y CBD yng Nghymru. Cafodd y cynllun ei gyhoeddi gyntaf yn 2015 a'i ddiwygio yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu **diwygio'r** Cynllun Gweithredu Adfer Natur i weithredu Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd COP15.

Archwiliad trylwyr ynghylch bioamrywiaeth

Mewn ymateb i'r ymrwymiad 30x30 a chyn COP15, lansiodd Llywodraeth Cymru **Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth**, a ddaeth i ben ym mis Hydref 2022. Nododd **grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr themâu ac argymhellion allweddol** ar gyfer camau gweithredu i gefnogi'r targed 30x30. Roedd yr Archwiliad Dwfn yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol a gosod targedau bioamrywiaeth statudol.

Coetiroedd i Gymru

Mae **strategaeth Coetiroedd i Gymru** Llywodraeth Cymru (a gafodd ei chyhoeddi gyntaf yn 2009 a'i diweddarau yn 2018) yn cydnabod y gall coetiroedd wneud cyfraniadau sylweddol i fioamrywiaeth ac ecosystemau iach. Mae'r strategaeth yn pennu targed, sef creu 2,000 hectar y flwyddyn o goetir ar gyfer gwella a hyrwyddo ansawdd amgylcheddol, ymateb i newid yn yr hinsawdd, dibenion hamdden, a'r sector coedwigaeth. Ailbwysleisiodd y **Cynllun Cyflenwi Carbon Isel** (2019) y targed hwn, a chynnig y dylid ei gynyddu i 4,000 hectar y flwyddyn "cyn gynted ag y bo modd".

Fodd bynnag, cafodd y **targedau plannu hyn, sydd eisoes yn uchelgeisiol, eu disodli yn 2021** yn dilyn yr **Archwiliad Dwfn i Goed a Phren** (mwy am hyn yn nes ymlaen). Y targed nawr yw plannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030 (bron 5,000 hectar y flwyddyn), gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050 (dros 6,000 hectar y flwyddyn). Daeth nifer **argymhellion eraill** allan o'r archwiliad dwfn, i helpu i fodloni nodau'r strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Ffigur 4: Coedwig Niwbwrch ar arfordir Ynys Môn



Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Nod y **rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN)** a ddechreuodd yn gynnar yn 2020, yw helpu cymunedau nad oes ganddynt lawer o fynediad at natur a lefelau amddifadedd uchel i adfer a gwella natur yn eu hardaloedd lleol. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi prosiectau ar raddfa fach a gynhelir gydag awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol. Mae enghreifftiau yn cynnwys **creu mannau gwyrdd, perllannau cymunedol, a phrosiectau tyfu; newidiadau mewn arferion torri gwair; a phlannu coed.**

Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd

Mae'r **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd** yn gynllun pum mlynedd (o 2020) i adfer mawndiroedd yng Nghymru, yn benodol i adfer ecosystemau ar gyfer storio a dal carbon. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i chydlynu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Natur am Byth

Mae **Natur am Byth** yn rhaglen chwe blynedd (o 2021) sy'n anelu at warchod

rhywogaethau sydd mewn perygl yng Nghymru ac ymgysylltu â'r gymuned i hyrwyddo cadwraeth natur. Arweinir y rhaglen hon gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn partneriaeth â naw elusen amgylcheddol.

Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yw'r term cyfunol a ddefnyddir ar gyfer pob math o safle cadwraeth natur sy'n cael ei warchod yn yr amgylchedd morol. Maent yn cynnwys Parthau Cadwraeth Morol (**Dim ond 1 yng Nghymru ers 2014: Parch Cadwraeth Morol Sgomer**), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a Safleoedd Ramsar. **Mae deddfwriaeth, rheoliadau a pholisïau amrywiol yn berthnasol i Ardaloedd Morol Gwarchoddedig**, gan gynnwys **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru** 2019, sy'n cynnwys polisiau sy'n cefnogi datblygiad a gweithrediad y rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchoddedig. Mae cyfanswm o **139 Ardal Forol Warchoddedig yng Nghymru, yn cwmpasu 69 y cant o ddyfroedd mewndirol**.

Mae Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru 2018-2023 yn disgrifio'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, sut mae'n cael ei reoli, a ffyrdd o wella ei reolaeth a'i gyflwr. Mae'r fframwaith yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth effeithiol o'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a bod sefydliadau amrywiol yn rhannu'r cyfrifoldeb am gyflawni'r gwaith rheoli, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a **Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a sefydlwyd gan rai awdurdodau rheoli**. Mae'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig** blynyddol yn ategu'r fframwaith drwy bennu camau gweithredu â blaenoriaeth i wella rheolaeth a chyflwr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi datblygu **asesiadau cyflwr dangosol nodweddion ar gyfer safleoedd morol** ar gyfer AGA ac ACA, ac mae'n bwriadu cynhyrchu proses adrodd debyg ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Deddfwriaeth bioamrywiaeth Cymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Diben **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yw hyrwyddo rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'n disodli'r ddyletswydd flaenorol i warchod bioamrywiaeth a nodwyd yn **Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006**.

Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus

gynnal a gwella bioamrywiaeth i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau hon hefyd yn cynnwys bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau sy'n nodi eu camau gweithredu arfaethedig i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, ac adrodd ar eu cynnydd.

Mae adran 7 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella **organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf** ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae Deddf 2016 hefyd yn sefydlu fframwaith o bolisiau:

- Bob 5 mlynedd, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi **Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol**, yn asesu rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a bioamrywiaeth yng Nghymru ac ystyried tueddiadau sy'n effeithio ar reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol;
- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gweithredu **polisi adnoddau naturiol cenedlaethol**, yn amlinellu blaenoriaethau allweddol, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Rhaid adolygu'r polisi ar ôl pob etholiad cyffredinol (cyhoeddwyd y **Polisi Adnoddau Naturiol** diwethaf yn 2017; nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi un newydd ers etholiad cyffredinol 2021 ac mae'n **bwriadu ei ddiweddarau i integreiddio argymhellion o'r Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth a Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang COP15**); ac
- Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi **datganiadau ardal**, sy'n adroddiadau adnoddau naturiol sy'n seiliedig ar leoedd, yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau naturiol mewn ardal, yn esbonio sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi'u cymhwyso, ac yn ymdrin â blaenoriaethau, risgiau neu bryderon.

Mae Ymchwil y Senedd wedi **llunio canllaw** gyda mwy o fanylion am ofynion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol Deddf 2016.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu fel bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae Deddf 2015 yn gwneud hynny drwy ddiffinio saith nod llesiant. Mae'r nod "Cymru gydnerth" yn cydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth ar gyfer llesiant:

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Mae Deddf 2015 yn gwneud **dangosyddion llesiant cenedlaethol** yn ofynnol i fesur y cynnydd tuag at hyn a nodau llesiant eraill a ddiffinnir yn y Ddeddf. Mae dangosyddion 43 ('Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru') a 44 ('Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru') yn ystyried bioamrywiaeth yn benodol.

Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

Mae **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023** yn gwahardd gwerthu neu gyflenwi cynhyrchion plastig untro penodol yng Nghymru. Eitemau plastig untro yw prif ffynhonnell sbwriel y cefnfor, sy'n bygwth bioamrywiaeth, yn enwedig cynefinoedd morol. Mae **papur briffio arall gan Ymchwil y Senedd** yn darparu gwybodaeth bellach.

Monitro bioamrywiaeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn modelu ac yn monitro effaith amgylcheddol, gymdeithasol ac economaidd rhai o'i pholisïau drwy **Raglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig**. Disodlodd y **Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir** flaenorol yn 2016. Mae'n casglu data ar draws tirwedd Cymru ac yn cysylltu newidiadau ag effeithiau dilynol, megis canlyniadau economaidd.

Sefydliadau Cymreig perthnasol

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw corff statudol Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli adnoddau naturiol Cymru. Cafodd ei sefydlu drwy uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn diffinio diben CNC i fynd ar drywydd egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a'u cymhwyso. Mae gan CNC rolau a dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Ymhlith eraill, mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a datganiadau ardal, yn ogystal â dynodi ardaloedd gwarchoddedig.

Mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC)** yn grŵp o randdeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru a'i nod yw hyrwyddo a monitro bioamrywiaeth a chamau gweithredu ecosystemau.

Mae **Cyswilt Amgylchedd Cymru (CAC)** yn rhwydwaith o gyrff anllywodraethol amgylcheddol, cefn gwlad a threftadaeth. Mae'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ac yn briffio'r Senedd ar bolisi ac arfer amgylcheddol.

Lloegr

Deddf yr Amgylchedd 2021

Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwelliannau bioamrywiaeth yn Lloegr. Mae'n cynnwys yn benodol:

- Targed ar helaethrwydd rhywogaethau ar gyfer 2030;
- Gofyniad am enillion net bioamrywiaeth o 10 y cant fel 'amod o sicrhau caniatâd cynllunio' ac ar gyfer datblygu 'prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol';
- Gofyniad i greu a chyhoeddi strategaethau adfer natur lleol: mae angen iddynt gynnwys blaenoriaethau bioamrywiaeth a mapiau cynefinoedd ar gyfer pob ardal, gan gwmpasu Lloegr gyfan, a ffurfio rhwydwaith o ardaloedd adfer natur;
- Creu Cyfamodau Cadwraeth; a
- Gwahardd nwyddau sy'n risg i goedwigoedd mewn gweithgareddau masnachol a gofyniad i adrodd ar system ddiwydrwydd dyladwy ar gyfer y nwyddau hyn.

O dan y Ddeddf, cynigiodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) dargedau ychwanegol mewn **ymgyngoriad ar dargedau amgylcheddol** yn 2022, gan arwain at **gyhoeddi targedau** ac yn benodol ar gyfer bioamrywiaeth, gofyniad i:

- Atal y dirywiad mewn poblogaethau rhywogaethau erbyn 2030, ac yna cynyddu poblogaethau gan o leiaf 10 y cant i fod yn uwch na'r lefelau presennol erbyn 2042;
- Adfer cyrff dŵr gwerthfawr i'w cyflwr naturiol drwy atal llygredd niweidiol o garthffosydd a mwyngloddiau segur, a gwella'r defnydd o ddŵr mewn aelwydydd;
- Cyflawni uchelgeisiau sero net a rhoi hwb i adferiad natur drwy gynyddu gorchudd coetir i 16.5 y cant o gyfanswm arwynebedd tir yn Lloegr erbyn 2050; ac
- Adfer 70 y cant o'r nodweddion dynodedig mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gyflwr ffafriol erbyn 2042, gyda'r gweddill mewn cyflwr sy'n gwella.

Yr Alban

Bil yr Amgylchedd Naturiol yn yr Alban

Ym mis Medi 2023, lansiodd Llywodraeth yr Alban **ymgyngoriad** ar y cynllun 5 mlynedd cyntaf ar gyfer **Strategaeth Bioamrywiaeth yr Alban hyd at 2045**. Cyhoeddwyd y strategaeth hon am y tro cyntaf yn 2022 ac fe'i diweddarwyd ym mis Medi 2023. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiynau ar Fil Amgylchedd Naturiol arfaethedig, yr ymrwymodd Llywodraeth yr Alban iddo mewn **rhaglen polisi a rennir** gyda Phlaid Werth yr Alban yn 2021.

Ardaloedd gwarchodedig

Cyda threigl amser, mae nifer fawr o ddynodiadau ar gyfer ardaloedd gwarchodedig wedi datblygu. Mae'r adran hon yn cyfuno mathau o ddynodiadau yng Nghymru a'r ddeddfwriaeth sylfaenol.

Ffigur 5: Palod ar arfordir Ynys Sgomer, yn yr unig Barth Cadwraeth Forol yng Nghymru



Mae Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 yn amcangyfrif bod **ardaloedd gwarchodedig yn cwmpasu 50 y cant o Gymru ar y môr, ac 11 o Gymru ar dir.**

Mae **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** yn rhoi'r warchodaeth sylfaenol i'r rhan fwyaf o'r safleoedd gwarchod natur ar dir. Mae SoDdGA yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion tir reoli eu tir i warchod ei nodweddion arbennig. Nodir SoDdGA gan CNC. Mae gwarchodfeydd natur cenedlaethol, safleoedd Ramsar, yn ogystal ag AGA a ACA, hefyd yn SoDdGA. **Ar hyn o bryd, mae dros 1,000 o SoDdGA yng Nghymru.**

Dynodwyd **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)** o dan Gyfarwyddeb Adar yr UE, sydd bellach yn cael ei throsi'n gyfraith ddomestig gan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**. Mae AGA yn gwarchod cynefinoedd rhywogaethau adar mudol a phrin neu dan fygythiad, megis barcudiaid coch, cudyllod bach, gweilch y pysgod a chwtiaid aur. Nodir AGA gan CNC sy'n ystyried canllawiau dethol gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. **Ar hyn o bryd, mae 21 o AGA yng Nghymru.** Gallant fod ar dir neu yn y môr.

Dynodwyd **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)** yn wreiddiol o dan Gyfarwyddeb yr UE ar Gynefinoedd, sydd bellach yn cael ei throsi'n gyfraith ddomestig gan **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**. Nod ACA yw gwarchod bioamrywiaeth drwy warchod dros 1,000 o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion rhestredig, yn ogystal â 200 o gynefinoedd. **Ar hyn o bryd, mae 95 o ACA yng Nghymru,** gan gynnwys rhai safleoedd trawsffiniol. Gallant fod ar dir neu yn y môr.

Y **Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol** sy'n disodli Natura 2000 ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys holl safleoedd blaenorol Natura 2000, yn ogystal â'r ACA a'r AGA newydd a ddynodwyd ar ôl i'r DU adael yr UE. **Yr amcan yw darparu'r un lefel o amddiffyniad ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd dan fygythiad â rhwydwaith Natura 2000 yr UE,** ac i hwyluso cydweithredu rhwng rhanddeiliaid.

Mae **safleoedd Ramsar** yn wlyptiroedd gwarchodedig o dan **Confensiwn Ramsar UNESCO**. Nodir safleoedd Ramsar gan CNC, mewn cydweithrediad â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae pob safle Ramsar hefyd yn SoDdGA. Mae **10 safle Ramsar yng Nghymru ar hyn o bryd.**

Dynodir **gwarchodfeydd biosffer** gan UNESCO ac maent yn rhan o Rwydwaith Gwarchodfeydd Biosffer y Byd. Maent yn cael statws gwarchodedig drwy ddynodiadau eraill, megis SoDdGA. Ar hyn o bryd mae un warchodfa biosffer yng Nghymru, sef **Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi.**

Dynodir **Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG)** gan CNC o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, neu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Heblaw am warchod natur, caiff ei dynodi hefyd at ddibenion ymchwil ac astudio ac, fel y cyfryw, mae ar agor i'r cyhoedd. Mae pob GNG hefyd yn SoDdGA. **Ar hyn o bryd, mae 76 GNG yng Nghymru.** Caiff ei rheoli naill ai gan CNC neu gyrff gwirfoddol, megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB, neu'r Ymddiriedolaethau Natur.

Mae **Gwarchodfa Natur Leol (GNL)** yn debyg i GNG ond, o ddiddordeb lleol yn unig, yn hytrach na diddordeb cenedlaethol. Fel y cyfryw, caiff ei dynodi gan awdurdodau lleol. Mae **62 GNL yng Nghymru ar hyn o bryd**, gan gynnwys, ymhlith eraill, chwareli segur, camlesi diangen neu gilffyrdd rheilffordd segur.

Nod **Parthau Cadwraeth Morol (PCM)** yw gwarchod ystod o gynefinoedd a rhywogaethau morol prin neu dan fygythiad. Yn wahanol i Warchodfeydd Natur Cenedlaethol, mae PCM yn ymdrin ag amgylcheddau morol yn benodol ac yn cynnwys y môr a gwely'r môr. Mae PCM yn disodli'r gwarchodfeydd natur morol blaenorol drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Ar hyn o bryd, mae un PCM ym moroedd Cymru, sef **Parth Cadwraeth Morol Skomer. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru** i ddynodiadau pellach cyn diwedd tymor y llywodraeth.

Sefydlwyd **parciau cenedlaethol** o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 ac maent yn deillio o'r galw am fynediad i'r cyhoedd i gefn gwlad. Fel y cyfryw, mae diben hamdden i Barciau Cenedlaethol hefyd, ac mae **egwyddor Sandford** yn sbardun i gydbwysu hamdden a chadwraeth, sy'n rhoi blaenoriaeth i gadwraeth dros hamdden pan fydd gwrthdaro anghymodlon. Mae **3 pharc cenedlaethol yng Nghymru ar hyn o bryd: Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, a Pharc Cenedlaethol Eryri.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwaith i ddynodi **Parc Cenedlaethol newydd** i gwmpasu Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

Mae'r adran hon yn cyflwyno camau gweithredu parhaus a datblygiadau posibl yn y dyfodol sy'n ymwneud â pholisi a deddfwriaeth bioamrywiaeth.

Ym mis Ebrill, datganodd Llywodraeth Cymru a'r Senedd **'argyfwng hinsawdd'**. Daeth datganiad 'argyfwng natur' yn ddiweddarach, ym mis Mehefin 2021, **gan y Senedd**. Cefnogwyd y datganiad gan Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, yn y Chweched Senedd, a ddywedodd y canlynol:

Wrth gwrs, rydym yn gosod newid hinsawdd a natur yn y canol yn holl benderfyniadau'r Llywodraeth newydd hon.

Mae **Rhaglen Lywodraethu'r Chweched Senedd** yn cynnwys yr amcanion llesiant i:

- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn;
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl.

Ym mis Awst 2020, llofnododd Llywodraeth Cymru, ymhlith llywodraethau datganoledig eraill, dinasoedd ac awdurdodau lleol, **Ddatganiad Caeredin** ar fioamrywiaeth fyd-eang. Mae'r llofnodwyr yn mynegi eu pryder ynghylch methu targedau Aichi ac yn galw am gamau gweithredu cryf a beiddgar i sicrhau gweddnewid i atal colli bioamrywiaeth.

Amlinellir rhai meysydd o ddiddordeb penodol isod.

Targedau bioamrywiaeth

Ar hyn o bryd, nid oes targedau domestig gan Gymru sy'n ymwneud ag adfer bioamrywiaeth.

Dyma fater y mae **cyrff anllywodraethol amgylcheddol wedi bod yn lobio arno ers blynyddoedd**.

Mewn **datganiad cyn COP15**, tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at y ffaith bod targedau yn fwy effeithiol os ydynt yn gyfreithiol rywomol. Ym mis Chwefror 2023,

ysgrifennodd dros 300 o sefydliadau o dan faner Climate Cymru **lythyr agored at y Prif Weinidog yn galw am Fil ‘Natur Bositif’** i’w ddwyn ymlaen yn natganiad deddfwriaethol 2023-24. Gofynnwn nhw i’r Bil hwn gynnwys targedau adfer natur sy’n gyfreithiol rwymol a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol (trafodir hyn isod). Tynnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru **syllw hefyd at** yr angen am dargedau interim sy’n gyfreithiol rwymol a chyfnodau tymor byr ar gyfer gweithredu.

Nid yw **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24** yn cynnwys Bil o’r fath. Yn hytrach, **ymrwymodd Prif Weinidog Cymru** i gyflwyno’r deddfwriaeth “yn ystod tymor y Senedd hon”.

Roedd yr Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth yn cynnwys **ymrwymiad** i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol a thargedau adfer natur statudol manwl. Mae’r targedau hyn hefyd yn **ymrwymiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026**. Disgwylir papur gwyn ym mis Ionawr 2024.

Coedwigaeth a choetiroedd

Targed Llywodraeth Cymru yw plannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030 (bron i 5,000 o goed y flwyddyn) a 180,000 hectar erbyn 2050 (mwy na 6,000 hectar y flwyddyn). Mae’r amcan hwn yn cyd-fynd ag argymhellion 2020 gan **Bwyllgor Newid Hinsawdd** y DU i gyrraedd net sero. **Nid yw’r targed plannu wedi ei gyflawni hyd yn hyn**, gyda 620 hectar wedi’u plannu yn 2021/22 a 1,190 hectar yn 2022/23. Mae cyfanswm **o lai na 43,000 hectar o goed newydd wedi cael eu plannu yng Nghymru ers 1973**.

Mae’r **Goedwig Genedlaethol** yn brosiect tymor hir a gyflwynwyd gyntaf gan Mark Drakeford, y Prif Weinidog, yn ei fanifesto arweinyddiaeth yn 2018. Lanswyd y prosiect **ym mis Mawrth 2020**. Mae’n cynnwys **creu coetiroedd newydd yng Nghymru** ac uwchraddio coetiroedd presennol i fodloni safonau coedwigaeth y DU. Nod y Goedwig Genedlaethol yw gwella bioamrywiaeth drwy ddarparu cynefinoedd, yn ogystal â dal carbon i liniaru newid hinsawdd a’r buddion ar gyfer datblygu gwledig, yr economi a hamdden.

Mae’r prosiect wedi cynnwys **mentrau** megis **plannu coed cymunedoldynodi 14 safle** fel rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol ym mis Tachwedd 2020, a lansiad **Cynllun Statws Goedwig Genedlaethol Cymru** ym mis Mehefin 2023. Mae cyllid ar gael drwy’r **Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG)**. Nid oes Strategaeth Goedwig Genedlaethol wedi’i chyhoeddi ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod **gwaith ar y gweill** i bennu’r model cyflawni hirdymor mwyaf addas ar gyfer y

Goedwig Genedlaethol.

Cynhaliwyd **Archwiliad Dwfn i Goed a Phren** ym mis Mehefin 2021 i flaenoriaethu camau gweithredu i gynyddu plannu coed a goresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â chreu coetiroedd, defnyddio pren o Gymru yn y maes adeiladu, a phlannu coed cymunedol. Roedd **argymhellion** y Tasglu Coed a Phren yn cynnwys adolygiad o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler isod), datblygu Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, gwelliannau mewn ymgysylltu â'r gymuned, creu cynlluniau ariannu, a'r angen am gyllid tymor hir diogel.

Mae'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren yn cael ei datblygu mewn ymateb i **argymhelliad yr archwiliad dwfn** ar gyfer strategaeth i gydlynu cyflenwadau pren ac adeiladu. **Dywedodd y Gweinidog** ym mis Mawrth bod gwaith yn mynd rhagddo gyda'r nod o ddatblygu'r strategaeth erbyn diwedd 2023. Mae rhanddeiliaid megis RSPB Cymru yn rhybuddio y gall coedwigo ddinistrio bioamrywiaeth os ehngir coetiroedd i gynefinoedd sefydledig, yn enwedig cynefinoedd prin megis mawndiroedd. Canfu **Adolygiad Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol yng Nghymru** y gellid cael y buddion mwyaf ar gyfer bioamrywiaeth wrth wella ansawdd coetiroedd, yn hytrach na chynyddu eu maint.

Polisi rheoli tir yn y dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu cynigion ar gyfer polisi amaethyddol yn y dyfodol nawr bod y DU wedi gadael Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE. **Disgwylir** i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a ragwelir yn 2025, wobrwyo ffermwyr yn bennaf am fuddion amgylcheddol, gan gynnwys diogelu cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth.

Yn wahanol i'r PAC, ni fyddai ffermwyr yn cael cymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd fel y cyfryw, **gyda'r rhesymeg** bod bwyd yn nwydd y gellir ei farchnata ac, felly, na ddylai gael ei ariannu gan y wladwriaeth. Yn hytrach, byddai'r cyllid yn canolbwyntio ar fuddion cynhyrchu bwyd cynaliadwy na ellir eu marchnata, megis gwella bioamrywiaeth. Er enghraifft, gallai hyn fod ar ffurf gwella amrywiaeth blodau gwyllt ar ffermydd, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd.

Mae **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y cynllun newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy - y trydydd amcan yw "cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maen nhw'n eu darparu".

Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Mae gan gyrff yr UE, megis y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, rôl o ran **gorfodi cyfreithiau amgylcheddol sy'n deillio o'r UE i gael eu gweithredu**, megis y Cyfarwyddbau Natur, ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE. Llywir y cyfreithiau hyn, a'r modd y cânt eu dehongli, gan **egwyddorion amgylcheddol yr UE**, y bwriedir iddynt sicrhau safonau amgylcheddol uchel. Amlinellir y mecanweithiau hyn mewn **Briff Ymchwil y Senedd**.

Ar ôl gadael yr UE, ni fydd y strwythurau llywodraethu a'r egwyddorion amgylcheddol hyn yn gymwys yn y DU mwyach. **Mae rhanddeiliaid wedi bod yn galw** ar gyrff llywodraethu amgylcheddol domestig i sicrhau bod mecanweithiau atebolrwydd newydd ar waith. Mae'r strwythurau newydd hyn wedi bod yn datblygu ar wahân ar draws gwledydd y DU.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru o'r blaen (2018) y byddai'n "manteisio ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf i gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith a chau'r bwlch llywodraethu" ar ôl Brexit. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn 2019; **Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**. Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth wedi'i chyflwyno eto i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol domestig i Gymru, nac egwyddorion amgylcheddol. **Mae trefniadau interim ar waith**, ond rôl 'Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru' yw gwneud sylwadau ar weithrediad cyfraith amgylcheddol, yn hytrach nag ymchwilio i achosion o dorri'r gyfraith.

Mae **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd** wedi ei sefydlu ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon a **Safonau Amgylcheddol yr Alban** wedi ei sefydlu ar gyfer yr Alban. **Mae Cyswilt Amgylchedd Cymru yn dadlau** bellach mai Cymru sydd â'r strwythurau llywodraethu amgylcheddol gwannaf yng ngorllewin Ewrop.

Cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd ddau ymchwiliad yn y maes polisi hwn, yn **2018** ac yn **2019**. **Roedd yn eiriol i ddeddfwriaeth ymdrin â'r materion hyn** yn y Chweched Senedd.

Cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Chweched Senedd sesiynau tystiolaeth ar y trefniadau interim yn **2022 a 2023**.

Ariannu adferiad natur

Mae **adroddiad Llwybrau i 2030 Cyswllt Amgylchedd Cymru** yn pwysleisio'r angen am fuddsoddiad pellach i ariannu adferiad byd natur. Mae'r adroddiad hwn yn dadlau bod cyllid annigonol wedi achosi colled byd natur yn y gorffennol ac mae'n nodi:

...there is a gap of between £5 billion and £7 billion between the resources currently dedicated to nature recovery actions in Wales and those needed to meet priority outcomes for nature.

Mae'r adroddiad Llwybrau i 2030 yn amcangyfrif bod angen **£158 miliwn ychwanegol bob blwyddyn** i ddiwallu'r anghenion ar gyfer camau adfer natur. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru **yn tynnu sylw at** gyfleoedd o fuddsoddiadau preifat, gan nodi enghraifft megis y **Facilitation Fund yn Lloegr** a chronfeydd gwella amgylcheddol morol yn **yr Alban** a **Chymru**. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod bwlch ariannu mawr wedi codi gan nad yw **Gronfa Natur LIFE yr UE** bellach ar gael.

Monitro bioamrywiaeth

Tynnodd adroddiad **Natur Bositif 2030** sylw at argaeledd gwyddoniaeth a thechnoleg dinasyddion fel **synhwyro o bell** a geneteg i wella monitro bioamrywiaeth. Mae **Living Wales** yn brosiect ymchwil arloesol ym Mhrifysgol Aberystwyth, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n manteisio ar y cyfuniad o Arsylwi'r Ddaear (e.e. delweddau lloeren) a data daear i wella monitro bron ar unwaith, dadansoddiadau hanesyddol, a rhagfynegiadau.

Dywedodd **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith fod llawer o ddata ar gael, ond y gellid eu defnyddio mewn ffordd well. Pwysleisiodd **Enviroment systems** y cyfyngiadau oherwydd data sydd dan glo, h.y. data na ellir eu rhyddhau oherwydd trwyddedau cyfrinachedd.